# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Eisteddfod Theatr yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i griw'r Gân Actol am ennill y gystadleuaeth yn Eisteddfod Sir Caerdydd a'r Fro. Bydd y Gân Actol nawr yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam. Diolch yn fawr i'r staff sydd wedi bod wrthi yn hyfforddi'r disgyblion a'r rhieni a staff sydd wedi helpu gyda'r props a'r dillad. Diolch arbennig i'r disgyblion am eu holl waith caled dros y misoedd diwethaf.

### Pêl droed

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed merched yr ysgol am ennill twrnamaint 5 bob ochr ysgolion Caerdydd a'r Fro. Tipyn o gamp! Bydd y tîm nawr yn cystadlu ym mhencampwriaeth ysgolion Cymru ym mis Mai. Diolch i Mr Chapman am eu hyfforddi.

### Nosweithiau Rhieni

Diolch yn fawr i bawb wnaeth fynychu'r nosweithiau rhieni. Roedd yn hyfryd gallu sgwrsio gyda chi am gynnydd eich plentyn ac roedd yn gyfle i chi hefyd i weld gwaith eich plentyn. Edrychwn ymlaen wythnos nesaf at groesawu mwy o rieni i'r ysgol ar gyfer ein sesiynau Dathlu Dysgu .

### Eisteddfod Sir yr Urdd

Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu yfory yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Dymunwn bob hwyl i'r partïon deulais, y parti Cerdd Dant, yr Ensemble Lleisiol a'r holl unigolion a'r deuawdau fydd yn cystadlu yfory. Rydym yn falch iawn o bob yr un ohonoch.

## Calendr

**5/4/25 Eisteddfod Sir yr Urdd, Undeb y Myfyrwyr Caerdydd**

**Gwyliau Pasg 14/4/25 - 28/4/25**

**Ysgol yn ail ddechrau i bawb 28/4/25**

**Gŵyl y Banc 5/5/25**

## Neges o griw'r Bws Beic

Dydd Iau nesaf, ymunwch gyda ni, Ysgol Pwll Coch, Ysgol Radnor a Coach Balto o Portland, Oregana am fws beic arbennig iawn! Mae 4 opsiwn man cychwyn (cofiwch gyrraedd yn brydlon).

8.05 Parc Fictoria i adael am 8.15
8.15 Parc Thompson i adael am 8.25
8.20 Chapter i adael am 8.30
8.30 Cornel stryd York a Brunswick i ymuno â'r Bws Beic fydd yn pasio am 8.35.

Bydd teuluoeddd Treganna yn ymuno ar gefn y Bws Beic.




## Miss Parry

Bydd Miss Branwen Parry, athrawes dosbarth bl 6 Gronw, yn cychwyn ei chyfnod mamolaeth ar ôl gwyliau'r Pasg. Dymunwn bob dymuniad da iddi hi a'r teulu. Yn ei habsenoldeb bydd Miss Lisa Jones yn addysgu dosbarth bl 6 Gronw. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu i ysgol Treganna.

## Lego League

Da iawn i griw Dewiniaid Digidol yr ysgol wnaeth gystadlu'r wythnos hon yng nghystadleuaeth Lego League. Defnyddiodd y criw llawer o sgiliau gwahanol - adeiladu, codio, cyflwyno a chydweithio yn ystod y gystadleuaeth. Diolch i Miss Lewis am baratoi'r disgyblion ar gyfer y gystadleuaeth.


## Y Nyth

**Cymell Emosiynau**

Diolch o galon i'r holl rieni a ddaeth i'r gweithdy bore 'ma. Braf iawn oedd gweld cynifer ohonoch. Rydym yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth yn fawr. Diolch hefyd i Dr Luke Ryan am gynnal sesiwn llawn gwybodaeth ac am egluro sut y gall rieni gefnogi yn y cartref.
Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gweithdai'r dyfodol, mae croeso mawr i chi gysylltu â ni.

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm Iaith

**Dyma batrwm iaith wythnos nesaf**

Fy hoff beth i yw…/ Fy nghas beth i yw…

**Her**

Mae hwn llawn gystal â..

Dydy hwn ddim gystal â…

**Testun trafod yr wythnos**

Pe bawn i'n anweledig…

**Cân yr wythnos**

Al Lewis - Lliwiau Llon

**Idiom yr wythnos**

Dŵr dan bont